Llywodraeth Cymru
Dogfen Ymgynghori

# Ymgynghoriad ar Statws a Safonau Rheoleiddio newydd ar gyfer y Fframwaith Rheoleiddiol ar gyfer Cymdeithasau Tai sydd wedi'u Cofrestru yng Nghymru.

Dyddiad cyhoeddi: 13 Gorffennaf 2021
Camau i'w cymryd: 25 Awst 2021

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd.
This document is also available in English.

OGL (h) Hawlfraint y Goron

| | |
|---|---|
| **Trosolwg** | Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am eich barn ar newidiadau arfaethedig *i'r Fframwaith Rheoleiddiol ar gyfer Cymdeithasau Tai sydd wedi'u Cofrestru yng Nghymru*, sef:<br>• Statws Rheoleiddio drafft<br>• Safonau Rheoleiddio drafft |
| **Sut i ymateb** | Gallwch ymateb i'r ymgynghoriad hwn drwy ateb y cwestiynau ar ddiwedd y ddogfen hon. Cewch gyflwyno eich atebion mewn nifer o ffyrdd.<br><br>E-bost: HousingRegulation@llyw.cymru<br><br>Drwy'r post: Tîm Rheoleiddio Tai<br>Diogelwch, Rheoleiddio a Safonau Tai<br>Llawr Daear, Craidd y Gogledd<br>Llywodraeth Cymru<br>Parc Cathays<br>Caerdydd<br>CF10 3NQ<br><br>Wrth ymateb, rhowch wybod a ydych yn ymateb fel unigolyn neu a ydych yn cynrychioli safbwyntiau sefydliad. |
| **Gwybodaeth bellach a dogfennau cysylltiedig** | **Gellir cael y ddogfen hon mewn print bras ac mewn ieithoedd eraill yn ôl y gofyn.** |
| **Manylion cyswllt** | Tîm Rheoleiddio Tai<br>Diogelwch, Rheoleiddio a Safonau Tai<br>Llawr Daear, Craidd y Gogledd<br>Llywodraeth Cymru<br>Parc Cathays<br>Caerdydd<br>CF10 3NQ<br><br>HousingRegulation@llyw.cymru |

## Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (UK GDPR)

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a roddir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgyngoriadau ar gyfer y dyfodol. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i ymgynghoriad, gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Dim ond o dan gontract yr ymgymerir â gwaith o'r fath. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu a chadw data personol yn ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion cyn cyhoeddi'ch ymateb.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth.

Os caiff eich manylion eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Fel arall, ni chedwir eich data gan Lywodraeth Cymru am fwy na thair blynedd.

## Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan amgylchiadau penodol) i wrthwynebu prosesu neu gyfyngu ar brosesu
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'dileu'
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG), ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am y wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, gweler y manylion cyswllt isod:

Y Swyddog Diogelu Data:
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ

e-bost:
Swyddogdiogeludata@llyw.cymru

Manylion cyswllt Swyddfa'r
Comisiynydd Gwybodaeth yw:

Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

Ffôn: 01625 545 745 neu
0303 123 1113
Gwefan: https://ico.org.uk/

## Cynnwys


Pennod 1: Cyflwyniad ........ 6
Pennod 2: Statws Rheoleiddio Drafft ........ 7
Pennod 3: Safonau Rheoleiddio Drafft ........ 8
Atodiad A: Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad ........ 12
Atodiad B: Y Safonau Perfformiad Presennol ........ 16

## Pennod 1: Cyflwyniad

1.1 Mae'r *Fframwaith Rheoleiddiol ar gyfer Cymdeithasau Tai sydd wedi'u Cofrestru yng Nghymru* wedi bod ar waith ers mis Ionawr 2017, ac mae'n berthnasol i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig. Ar adeg ei gyflwyno, cytunwyd y byddai'r Fframwaith yn cael ei adolygu'n annibynnol ar ôl y flwyddyn gyntaf o'i weithredu.

1.2 Felly cynhaliwyd adolygiad cychwynnol yn gynnar yn 2018 ac arweiniodd hwnnw at gyhoeddi safonau perfformiad diwygiedig ym mis Hydref 2018. Roedd y newidiadau'n rhai bach eu natur, er mwyn sicrhau eglurhad. Roedd yr adolygiad nesaf i fod i gael ei gynnal yn ystod haf 2020, ac fe'i gohiriwyd oherwydd pandemig Covid-19.

1.3 Cyn comisiynu'r adolygiad, bu swyddogion yn trafod y fframwaith ag aelodau o'r sector. Buont hefyd yn cynnal trafodaethau â'r Grŵp Cynghori ar Reoleiddio – sy'n cynnwys cyrff sy'n cynrychioli tenantiaid, landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, awdurdodau tai lleol a rhanddeiliaid eraill. Arweiniodd hynny at ffurfio gweithgor a oedd yn cynnwys aelodau o'r Grŵp Cynghori ar Reoleiddio i adolygu'r fframwaith. Drwy'r gweithgor hwnnw, roedd swyddogion wedi gallu cytuno ar gwmpas yr adolygiad ar y cyd â'r sector.

1.4 Canolbwyntiodd yr adolygiad ar:

- Y newidiadau arfaethedig i ddimensiynau'r dyfarniad rheoleiddio o ran Llywodraethu (gan gynnwys gwasanaethau) a Hyfywedd Ariannol
- Cwmpas ac eglurder y safonau perfformiad
- Rôl y rheoleiddiwr wrth osod disgwyliadau am gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant

1.5 Ar ôl diffinio cwmpas yr adolygiad, cynhaliwyd arolwg ar-lein a chyfres o weithdai. Roedd hynny wedi galluogi rhanddeiliaid i lunio'r statws a'r safonau drafft a nodir yn yr ymgynghoriad hwn.

## Pennod 2: Statws Rheoleiddio Drafft

2.1 Mae'r tabl isod yn cynnig sut y gallai'r rheoleiddiwr ddisgrifio, yn y dyfodol, y dyfarniadau a roddwyd i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn erbyn pob un o'r ddau ddimensiwn rheoleiddio (Llywodraethu a Hyfywedd Ariannol).

| **Dyfarniad** | | |
|---|---|---|
| Cydymffurfio | Gwyrdd | Mae'r gymdeithas yn bodloni'r safonau rheoleiddio a bydd yn cael goruchwyliaeth reoleiddiol arferol. |
| | Melyn | Mae'r gymdeithas yn bodloni'r safonau rheoleiddio yn rhannol ac mae ganddi'r potensial i allu cyflawni'r gwelliannau gofynnol os caiff mwy o oruchwyliaeth reoleiddiol. |
| Peidio â chydymffurfio | Oren | Mae'r gymdeithas yn bodloni'r safonau rheoleiddio yn rhannol ac mae'n annhebygol o allu cyflawni'r gwelliannau gofynnol heb ymyrraeth reoleiddiol. |
| | Coch | Nid yw'r gymdeithas yn bodloni'r safonau rheoleiddio yn rhannol neu o gwbl, ac mae angen i'r rheoleiddiwr gymryd camau statudol. |

2.2 Caiff y termau 'goruchwyliaeth reoleiddiol', 'ymyrraeth reoleiddiol' a 'camau statudol' eu hegluro'n glir yn y ddogfen fframwaith newydd, ond mae crynodeb o bob un wedi'i gynnwys isod er gwybodaeth.

<u>Goruchwyliaeth reoleiddiol arferol</u>

Ystyr goruchwyliaeth reoleiddiol arferol yw bod archwiliadau rheolaidd yn cael eu cynnal fel mater o drefn i wirio bod y gymdeithas yn cydymffurfio, gan gynnwys adolygu’r cynnydd a wneir ar sail cynllun gwella'r gymdeithas.

<u>Mwy o oruchwyliaeth reoleiddiol</u>

Gallai mwy o oruchwyliaeth reoleiddiol gynnwys rhoi mwy o sylw i faterion penodol sy'n peri pryder, yn ogystal ag archwiliadau amlach. Er enghraifft, pryderon a nodwyd mewn perthynas â natur neu lefel y gwelliant sydd ei angen.

<u>Ymyrraeth reoleiddiol</u>

Ystyr ymyrraeth reoleiddiol yw y bydd y Rheoleiddiwr yn gweithio'n agos â’r gymdeithas i ddatblygu cynllun gwella sy'n mynd i'r afael â'r pryderon perthnasol penodol sy'n sail i'r dyfarniad oren.

<u>Camau statudol</u>

Ystyr camau statudol yw bod pwerau rheoleiddio yn debygol o gael eu defnyddio i'w gwneud yn ofynnol i gamau penodol gael eu cymryd.

## Pennod 3: Safonau Rheoleiddio Drafft

3.1 Mae'r tabl isod yn nodi’r 'Safonau Perfformiad' a awgrymir (a elwir yn Safonau Rheoleiddio). Caiff unrhyw reolau cysylltiedig eu pennu gan Weinidogion Cymru yn unol ag Adran 33A o Ddeddf Tai 1996. Cyhoeddir unrhyw ganllawiau statudol o dan Adran 33B o Ddeddf 1996 ac ymgynghorir arnynt yn unol ag adran 33C o'r Ddeddf honno. Bwriedir i unrhyw ganllawiau cynghori gael eu darparu ar wahân.

3.2 Y Safonau Rheoleiddio yw'r safonau, a fynegir fel canlyniadau, y mae'n ofynnol i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig gydymffurfio â nhw. Wrth bennu dyfarniad rheoleiddiol, bydd y rheoleiddiwr yn asesu i ba raddau y gall y Landlord Cymdeithasol Cofrestredig ddangos ei fod wedi cyflawni’r canlyniadau. Y Landlord Cymdeithasol Cofrestredig sy’n penderfynu ar y ffordd y bydd yn cyflawni'r canlyniadau.

3.3 Mae'r dull diwygiedig o ymdrin â'r safonau yn dilyn yr adborth a gafwyd yn ystod yr adolygiad. Ystyriwyd y gallai'r drefn bresennol fod yn ddryslyd ac yn anfuddiol, gan y gellid ystyried rhai o'r "canllawiau" fel canlyniadau a rhai fel "sut y dylid gwneud pethau", ac felly roeddent yn rhy argymhellol. Gan fod y canlyniadau bellach yn rhan o'r safon ei hun, yn hytrach na chanllawiau, mae'r safon yn glir ac yn ddiamwys, heb fod yn argymhellol.

3.4 Mae'r safonau presennol wedi’u cynnwys yn Atodiad B er mwyn gallu cyfeirio atynt yn hawdd. Roedd yr adborth yn glir y dylai'r safonau diwygiedig ganolbwyntio ar ganlyniadau, nad oedd yr ailadrodd a geir yn y safonau presennol o gymorth, ac nad yw canlyniadau i denantiaid yn cael yr un sylw â mesurau eraill (er enghraifft llywodraethu a chyllid). Rhoddwyd sylw i'r materion hyn yn y safonau drafft sydd bellach yn canolbwyntio ar ganlyniadau ac sy'n rhoi mwy o amlygrwydd i gyfranogiad tenantiaid.

| Cyfeirnod | Safonau Rheoleiddio |
|---|---|
| **SR1** | **Mae gan y sefydliad drefniadau arwain a llywodraethu strategol effeithiol sy'n ei alluogi i gyflawni ei ddiben a'i amcanion**<br><br>O ran y landlord cymdeithasol:<br><br>• Mae ganddo strategaeth[1] sy'n adlewyrchu gweledigaeth, diwylliant a gwerthoedd y sefydliad, ac sy'n nodi sut y bydd y sefydliad yn cyflawni ei ddiben craidd fel landlord cymdeithasol<br>• Mae'n cydymffurfio â'r dogfennau llywodraethu ac yn bodloni gofynion Cod Llywodraethu priodol<br>• Mae'n pennu ymrwymiadau mesuradwy mewn perthynas â chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant (gan gynnwys gwrth-hiliaeth) ac mae'n adlewyrchu amrywiaeth y cymunedau y mae'n gweithio ynddynt ar draws pob maes o'r busnes<br>• Mae ganddo Fwrdd amrywiol sy'n meddu ar y sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen i fod yn effeithiol<br>• Mae'n gwneud penderfyniadau rhesymegol yn seiliedig ar wybodaeth glir o ansawdd da sy'n cynnwys asesu risg a, lle y bo'n briodol, barn tenantiaid<br>• Mae'n galluogi tenantiaid i ddylanwadu ar benderfyniadau strategol<br>• Mae'n cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol, gofynion rheoleiddio a chanllawiau statudol, ac yn cyfathrebu'n amserol â'r rheoleiddiwr, gan gynnwys ynghylch materion perthnasol sy'n ymwneud â methiant gwirioneddol neu bosibl i gydymffurfio |
| **SR2** | **Mae trefniadau cadarn ar waith i reoli a sicrhau risg**<br><br>O ran y landlord cymdeithasol:<br><br>• Mae ganddo fframwaith effeithiol ar gyfer rheoli risg, rheolaethau mewnol a sicrhau risg sy'n ei alluogi i nodi a rheoli risgiau presennol a rhai sy'n dod i'r amlwg a allai beryglu cyflawni ei strategaeth neu gydymffurfio â gofynion deddfwriaethol neu reoleiddiol<br>• Nid yw'n rhoi asedau tai cymdeithasol na thenantiaid mewn perygl gormodol<br>• Mae'n rheoli cynllun parhad busnes sy'n hygyrch ac yn gyfredol, gan gynnwys cynlluniau wrth gefn a chynlluniau i adfer o effeithiau trychinebau |
| **SR3** | **Cyflwynir gwasanaethau o ansawdd uchel i denantiaid**<br><br>O ran y landlord cymdeithasol:<br><br>• Mae'n sicrhau bod tenantiaid yn ddiogel yn eu cartrefi ac yn nodi ac yn cywiro'n brydlon unrhyw danberfformiad neu ddiffyg cydymffurfio â materion iechyd a diogelwch landlordiaid<br>• Mae'n darparu gwasanaethau sy'n diwallu anghenion amrywiol tenantiaid<br>• Mae'n cyflawni ac yn cynnal lefelau uchel o fodlonrwydd ymhlith tenantiaid mewn perthynas â gwasanaethau |

**1** Defnyddir y term strategaeth yma – gall Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig unigol ddefnyddio termau eraill fel cynllun busnes neu gynllun corfforaethol

| | |
|---|---|
| **SR4** | **Gall tenantiaid ddylanwadu ar gynllun a darpariaeth gwasanaethau mewn ffyrdd sy'n briodol iddyn nhw a'r sefydliad**<br><br>O ran y landlord cymdeithasol:<br><br>• Mae'n sicrhau bod tenantiaid yn deall bod y sefydliad yn gweithredu mewn ffordd sy'n eu cynnwys, a'r ffyrdd y gallant gymryd rhan, yn ogystal â sut y bydd y sefydliad yn gwrando ar bryderon a materion tenantiaid ac yn gweithredu arnynt<br>• Mae'n rhoi cyfleoedd i denantiaid gymryd rhan, yn gallu dangos bod tenantiaid yn fodlon arnynt ac yn gallu dangos y gwahaniaeth y mae cyfranogiad yn ei wneud<br>• Mae'n gallu dangos bod safbwyntiau a disgwyliadau amrywiol tenantiaid yn llywio'r gwaith o ddatblygu ac adolygu tai a gwasanaethau cysylltiedig, a'r ymateb i unrhyw danberfformiad |
| **SR5** | **Mae rhenti a thaliadau am wasanaethau yn fforddiadwy i'r tenantiaid presennol ac i ddarpar denantiaid**<br><br>O ran y landlord cymdeithasol:<br><br>• Mae'n sicrhau bod pawb yn cydymffurfio â'r holl reolau a chanllawiau statudol perthnasol (gan gynnwys y cytundeb rhent cyfredol) |
| **SR6** | **Mae gan y sefydliad ymagwedd strategol at werth am arian sy'n llywio ei holl gynlluniau a gweithgareddau**<br><br>O ran y landlord cymdeithasol:<br><br>• Mae'n pennu ei ddull strategol o ymdrin â gwerth am arian, yn gallu dangos sut mae'r dull yn ymwneud â'i bwrpas cymdeithasol, ac yn gwneud penderfyniadau strategol a gweithredol yn unol ag ef<br>• Gall ddangos i randdeiliaid, gan gynnwys tenantiaid, fod y dull hwnnw'n sicrhau gwerth am arian wrth gyflawni ei strategaeth a'i wasanaethau |
| **SR7** | **Mae'r cynllunio a'r rheoli ariannol yn gadarn ac yn effeithiol**<br><br>O ran y landlord cymdeithasol:<br><br>• Mae'n gosod cynlluniau ariannol sy'n ei alluogi i gyflawni ei strategaeth a chyflawni'r pwrpas cymdeithasol, ac mae adroddiadau priodol yn cael eu hanfon i'r Bwrdd am y cynlluniau hynny<br>• Mae'n ariannol hyfyw yn y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hwy, ac mae'n sicrhau bod digon o gyllid a hylifedd ar gael i gefnogi hynny<br>• Mae'n monitro pob cyfamod y mae wedi cytuno arnynt â chyllidwyr, yn adrodd arnynt ac yn cydymffurfio â nhw<br>• Mae'n nodi ac yn rheoli risgiau'n effeithiol wrth gyflawni cynlluniau ariannol<br>• Mae ganddo strategaeth rheoli trysorlys, gan gynnwys prosesau cysylltiedig, sy'n effeithiol |
| **SR8** | **Caiff asedau a rhwymedigaethau eu rheoli'n dda**<br><br>O ran y landlord cymdeithasol:<br><br>• Mae'n deall sefyllfa gyfredol ei asedau a'i rwymedigaethau'n iawn |

| | |
|---|---|
| | • Mae'n gwneud y defnydd gorau o asedau i gyflawni ei bwrpas cymdeithasol ac amcanion y sefydliad<br>• Mae'n defnyddio gwybodaeth gywir am asedau a rhwymedigaethau i lywio penderfyniadau strategol ac ariannol |
| **SR9** | **Mae'r sefydliad yn darparu llety o ansawdd uchel**<br><br>O ran y landlord cymdeithasol:<br><br>• Mae'n sicrhau bod cartrefi a ariennir yn gyhoeddus yn bodloni'r holl safonau, rheolau a chanllawiau statudol perthnasol a gyhoeddir mewn cysylltiad ag ansawdd llety, gan gynnwys Safon Ansawdd Tai Cymru |

## Atodiad A: Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad

| | |
|---|---|
| **Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad** | Eich enw: |
| | Sefydliad (lle y bo'n berthnasol): |
| | Ai landlord ydych chi? |
| | Ai tenant ydych chi? |
| | Arall? |
| | E-bost / rhif ffôn: |
| | Eich cyfeiriad: |

## Statws a Safonau Rheoleiddio ar gyfer y Fframwaith Rheoleiddiol ar gyfer Cymdeithasau Tai sydd wedi'u Cofrestru yng Nghymru: Cwestiynau'r Ymgynghoriad.

| **C1**. A ydy'r **Statws Rheoleiddio (Dyfarniad)** diwygiedig yn hawdd ei ddeall mewn perthynas â pherfformiad rheoleiddiol Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig? | Ticiwch | |
|---|---|---|
| | Ydy | Nac ydy |
| Ychwanegwch yma unrhyw sylwadau a all fod gennych i egluro eich ateb: | | |

| **C2.** A ydy'r **Safonau Rheoleiddio** diwygiedig yn hawdd eu deall mewn perthynas â pherfformiad rheoleiddiol Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig? | Ticiwch | |
|---|---|---|
| | Ydyn | Nac oes |
| Ychwanegwch yma unrhyw sylwadau a all fod gennych i egluro eich ateb a hefyd unrhyw sylwadau eraill a allai fod gennych am y safonau: | | |

| **C3.** A ydych chi'n cytuno bod y **Safonau Rheoleiddio** diwygiedig yn cynnig lefel briodol o ddylanwad a chyfranogiad i denantiaid? | Ticiwch | |
|---|---|---|
| | Ydw | Nac ydw |
| Ychwanegwch yma unrhyw sylwadau a all fod gennych i egluro eich ateb: | | |

| **C4.** A ydy'r ystod o ganlyniadau sy'n rhan o'r **Safonau Rheoleiddio** diwygiedig yn adlewyrchu ystod briodol o weithgareddau Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig? | Ticiwch | |
|---|---|---|
| | Ydyn | Nac ydyn |
| Ychwanegwch yma unrhyw sylwadau a all fod gennych i egluro eich ateb: | | |

| **C5.** A ydych chi'n cytuno â'r disgwyliadau a bennwyd mewn perthynas â chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant (sydd wedi'u cynnwys yn SR1)? | Ticiwch | |
|---|---|---|
| | Ydw | Nac ydw |
| | | |
| Ychwanegwch yma unrhyw sylwadau a all fod gennych i egluro eich ateb: | | |

Mae ymatebion i ymgyngoriadau yn debygol o gael eu cyhoeddi ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Pe bai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddienw, ticiwch yma: ☐

# Atodiad B: Y Safonau Perfformiad Presennol

| Cyfeirnod | Safon Perfformiad | Canllawiau |
|---|---|---|
| SP.1 | **Bwrdd a rheolwyr gweithredol effeithiol sydd â gweledigaeth glir ac uchelgeisiol i'r Landlord Cymdeithasol Cofrestredig** | ▪ Pennu gweledigaeth glir a gwerthoedd pendant i'r sefydliad sy'n cyflawni ac yn datblygu diben craidd y busnes<br>▪ Trefniadau llywodraethu sy'n sefydlu ac yn cynnal rolau, cyfrifoldebau ac atebolrwydd clir i'r bwrdd, y cadeirydd a'r prif weithredwr ac yn sicrhau bod trefniadau uniondeb priodol ar waith<br>▪ Cydymffurfio â dogfennau llywodraethu gan gynnwys mabwysiadu cod llywodraethu priodol a chydymffurfio ag ef<br>▪ Dilyn pob elfen berthnasol o'r gyfraith |
| SP.2 | **Tenantiaid sy'n cael eu cynnwys yn effeithiol ac yn briodol a gwasanaethau o ansawdd uchel sy'n gwella** | ▪ Dangos sut mae tenantiaid yn cael eu cynnwys yn effeithiol mewn prosesau gwneud penderfyniadau strategol a'r gwaith o gynllunio gwasanaethau mewn ffordd sy'n briodol i denantiaid a'r sefydliad<br>▪ Bodloni'r holl ofynion statudol cymwys gan ddarparu ar gyfer iechyd a diogelwch y rhai sy'n byw yn y cartref |
| SP.3 | **Asesiad cynhwysfawr o effeithiau busnes y risgiau cyfredol a risgiau sy'n dod i'r amlwg, gan gynnwys cyfleoedd busnes a datblygu newydd, a threfniadau rheoli risg cadarn** | ▪ Diogelu buddiannau trethdalwyr ac enw da'r sector, a gwarchod asedau tai cymdeithasol<br>▪ Asesiad o'r gallu i fanteisio ar gyfleoedd busnes a chyfleoedd datblygu newydd sy'n gadarn<br>▪ Cynnal profion straen manwl a chadarn o gynlluniau ariannol yn erbyn amrywiaeth o senarios, gan nodi strategaethau lliniaru priodol<br>▪ Cyn derbyn unrhyw rwymedigaethau newydd, sicrhau bod y rhwymedigaethau yn cael eu deall yn llawn ac yn dangos ystyriaeth o sut y rheolir yr effaith debygol ar fusnes a chydymffurfiaeth reoleiddiol nawr ac yn y dyfodol |
| SP.4 | **Darparu tystiolaeth glir o'r hunanwerthusiad a'r datganiad cydymffurfiaeth** | • Cydymffurfio â Chylchlythyr 02/15 - Egwyddorion Craidd hunanwerthuso i'w defnyddio gan Gymdeithasau Tai sydd wedi'u Cofrestru yng Nghymru, neu unrhyw ganllawiau dilynol sy'n disodli'r Cylchlythyr hwn |

| | | |
|---|---|---|
| **SP.5** | **Hanes o gyflawni canlyniadau cadarnhaol, gan ymateb yn briodol i heriau newydd a phroblemau sy'n ymwneud â pherfformiad** | ▪ Dangos sut y mae'r bwrdd yn sicrhau ei hun ynglŷn â pherfformiad cyfredol, gan gynnwys bodlonrwydd tenantiaid, ac yn ysgogi gwelliant parhaus<br>▪ Dangos sut mae prosesau gosod eiddo yn gwneud y defnydd gorau posibl o'r tai sydd ar gael, yn unol â diben craidd y Landlord Cymdeithasol Cofrestredig |
| **SP.6** | **Sicrhau gwerth am arian ym mhob agwedd ar y busnes** | ▪ Dangos dull strategol o sicrhau a chyflawni gwerth am arian ym mhob rhan o'r busnes, o ran costau gweithredol a'r ffioedd a godir i denantiaid a defnyddwyr gwasanaethau |
| **SP.7** | **Cydymffurfio â gofynion rheoleiddiol, canllawiau statudol a chanllawiau eraill** | ▪ Cyfathrebu'n amserol â'r rheoleiddiwr ynghylch materion perthnasol sy'n ymwneud â methiant i gydymffurfio<br>▪ Cydymffurfio â'r holl ofynion rheoleiddiol |
| **SP.8** | **Cynllun ariannol sy'n cyflawni ac yn ategu'r cynllun busnes ac yn sicrhau bod perfformiad ariannol yn cael ei fonitro'n effeithiol** | ▪ Sicrhau bod y sefydliad yn gadarn yn ariannol<br>▪ Systemau a rheolaethau effeithiol ar waith i fonitro'r gwaith o gyflawni cynlluniau Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a chyflwyno adroddiadau cywir ar y gwaith<br>▪ Monitro pob cyfamod, adrodd arnynt a chydymffurfio â nhw |
| **SP.9** | **Rheoli gweithrediadau trysorlys yn effeithiol gan sicrhau digon o hylifedd bob amser** | ▪ Sicrhau bod digon o arian ar gael i gyflawni'r cynllun busnes<br>▪ Sicrhau bod rhagamcanion ariannol yn seiliedig ar dybiaethau priodol a rhesymol |
| **SP.10** | **Dealltwriaeth glir o rwymedigaethau a pherfformiad asedau** | ▪ Cynnal cofnod trylwyr, cywir a chyfredol o asedau a rhwymedigaethau gan gynnwys pob rhwymedigaeth sy'n ymwneud â'r hawl i ddefnyddio asedau tai cymdeithasol<br>▪ Data ar berfformiad ariannol a chymdeithasol asedau sy'n gywir ac a gaiff eu defnyddio i lywio penderfyniadau buddsoddi<br>▪ Sicrhau bod data ar gyflwr eu hasedau yn gywir ac yn gyfredol, a gellir dangos eu bod wedi ystyried costau gwaith cynnal a chadw, atgyweirio ac adnewyddu yn y byrdymor a'r hirdymor<br>▪ Sicrhau bod cartrefi a ariennir yn gyhoeddus yn bodloni safonau gofynnol y dyluniad a Safon Ansawdd Tai Cymru |